

END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU  
RHWYDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

Etholiadau'r Senedd – Tlodi Plant: Maniffesto tuag at Ddileu 2021

---



Children in Wales  
Plant yng Nghymru

Clymblaid o sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ddileu tlodi plant yng Nghymru yw Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant (ECPN) Cymru, ac mae'n cael ei gydlynu a'i reoli o ddydd i ddydd gan Plant yng Nghymru. Mae'r Grŵp Llywio yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r sectorau gwirfoddol a statudol, ac mae gan y rhwydwaith gorff cynyddol o aelodau cefnogol o groestoriad eang o asiantaethau.


Mae aelodau'r Grŵp Llywio yn cynnwys:

Gweithdredu dros Blant  
Barnardo's Cymru  
Plant yng Nghymru  
Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant  
Cyngor ar Bopeth  
National Energy Action Wales  
NSPCC Cymru  
Oxfam Cymru  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Achub y Plant Cymru  
Shelter Cymru  
The Buttle Trust  
Cymdeithas y Plant  
The Prince's Trust Cymru  
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Sylwedyddion:  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Cyngres Undebau Llafur Cymru  
Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn cael ei gydlynu gan Plant yng Nghymru  
Ffôn: 029 2034 2434 E-bost: [info@childreninwales.org.uk](mailto:info@childreninwales.org.uk)

Chwefror 2021



Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn dal i bryderu'n fawr bod lefelau tlodi plant yng Nghymru yn dal yn ystyfnig o uchel, a bod disgwyl iddynt gynyddu'n sydyn yn y dyfodol agos, wrth i lawer mwy o blant a'u teuluoedd gael trafferth i dalu am gostau ac anghenion beunyddiol sylfaenol. Bydd llawer o blant wedi cael bod eu sefyllfa wedi gwaethygu'n sylweddol o ganlyniad uniongyrchol i effaith economaidd COVID 19, gan fod yr argyfwng wedi gwaethygu anghydraddoldebau oedd yn bodoli ymlaen llaw.

Mae'r ffigurau cyn Covid-19 yn dangos bod mwy na **28%** o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol, ac mewn rhai etholaethau mae'r ffigur hwn yn codi i **1/3** o'r holl blant. Dywedir bod yn agos at hanner yr holl blant yn byw mewn tlodi mewn rhai wardiau etholiadol. Mae adroddiadau annibynnol yn amcangyfrif y gallai fod o leiaf **50,000** mwy o blant Cymru mewn tlodi erbyn 2021. Yn wyneb y galw digynsail am becynnau bwyd argyfwng, lefelau cynyddol o ddiweithdra ac ofnau ynghylch mwy o ddyled, mae'n debygol iawn y bydd caledi ariannol wedi cynyddu ymhellach erbyn adeg Etholiadau'r Senedd ym mis Mai.

O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mae gan bob plentyn hawl i safon byw sy'n ddigonol, a dylai pob plentyn gael dweud ei ddweud mewn penderfyniadau a fydd yn effeithio arnynt. Rydym ni'n credu y gallai ac y dylai Cymru wneud mwy â'r pwerau fydd gan lywodraeth nesaf Cymru.

Rydym ni'n credu y dylai atal a thaclo tlodi plant fod yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru ac ar gyfer yr holl bleidiau gwleidyddol yn nhymor nesaf y Senedd.

# Rydyn ni'n galw am y camau canlynol:

1. Gan adeiladu ar y dyletswyddau tlodi plant statudol a ragnodwyd trwy Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, dylai Llywodraeth nesaf Cymru gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r **Strategaeth Tlodi Plant gyda Chynllun Cyflawni**, gyda cherrig milltir clir, mesuradwy ac uchelgeisiol, a gefnogir gan drefniadau monitro tryloyw.
2. Mae llawer o blant yn newynog yn ystod y diwrnod ysgol. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru godi'r trothwy cymhwysedd ar gyfer **Prydau Ysgol am ddim** i sicrhau bod pob plentyn y mae eu rhieni'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gallu eu hawlio yn ystod tymhorau ysgol ac ar hyd gwyliau'r ysgol, a chymryd camau tuag at hawl gyffredinol i bawb.
3. Nid yw'r system **Gofal Plant** yn cyflawni ei photensial llawn, gan fod rhwystrau'n parhau o ran digonolrwydd, hygyrchedd, ansawdd a chost. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad at ofal plant o safon uchel, fel rhan o system gydlynus, integredig, gan ehangu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant a gofal plant Dechrau'n Deg er mwyn sicrhau bod modd i bob plentyn mewn tlodi gael mynediad at ofal plant am ddim.
4. Sefydlu **System Budd-daliadau Cymreig**, yn un pwynt mynediad ar gyfer cymorth, i helpu i roi sylw i rai o'r gwendidau yn y dull a ddefnyddir yng Nghymru i roi cefnogaeth ariannol i deuluoedd incwm isel.
5. Sicrhau bod y dyletswyddau statudol presennol a osodir ar **gyrff cyhoeddus** perthnasol i fynd i'r afael â thlodi plant trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cael eu cyflawni'n ddigonol, a bod trefniadau monitro cadarn yn eu lle i asesu ansawdd a gweithrediad Cynlluniau Llesiant lleol.
6. Dylai holl **benderfyniadau cyllidebol** Llywodraeth Cymru gael eu gwirio'n llawn o ran tlodi plant, gydag asesiadau effaith ar hawliau plant yn cael eu cynnal a'u cyhoeddi, yn cyflwyno effaith penderfyniadau ar blant ar aelwydydd incwm isel.
7. Darparu adnoddau digonol ac uwchraddio **rhaglenni cenedlaethol** a gwasanaethau, fel Dechrau'n Deg, sydd wedi cael eu gwerthuso'n effeithiol, ac sy'n cyflwyno canlyniadau cadarnhaol i'n plant tlotaf.
8. Cryfhau rhyngwyneb agendâu polisi **cydraddoldeb a thlodi plant** trwy sicrhau bod rhaglenni'n rhoi ffocws digonol ar anghenion plant sydd â nodweddion gwarchoddedig, yn unol â'r Ddyletswydd Sosio-economaidd o dan Ran 1 o'r Ddeddf Cydraddoldeb.
9. Ymrwymiad i sicrhau bod gan bob plentyn oed cynradd ac uwchradd fynediad at eu **cyfrifiadur personol** eu hun i gyrchu a chwblhau gwaith ysgol, a bod gan bob aelwyd gysylltiad band eang digidol diogel.
10. Sicrhau bod cyllid amnewid ar gyfer gadael rhaglenni Ewropeaidd ar lefel ddigonol, ac yn cael ei dargedu'n effeithiol i ddarparu manteision parhaol i blant ar aelwydydd incwm isel.

**Dylai camau gweithredu Llywodraeth nesaf Cymru gael eu seilio ar gydymffurfio â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).**

# Plant yng Nghymru

Plant yng Nghymru yw'r corff cenedlaethol trosfwaol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Corff o aelodau ydym ni, ac mae ein haelodau'n dod o'r sectorau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol. Rydym ni'n gweithio gyda'n haelodau ac ar eu rhan i hybu eu buddiannau a diwallu eu hanghenion. Gyda'n gilydd rydyn ni'n:

- Cyfrannu at wireddu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru
- Brwydro dros wasanaethau safonol a chynaliadwy a chyfran deg i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau sylw a thriniaeth arbennig i blant mewn angen a'r rhai ar y cyrion
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael llais

## Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru

Mae Grŵp Llywio Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, sydd wedi bod yn weithredol ers 2001, wedi bod yn gweithio i leihau'r lefelau o dlodi plant a lliniaru'r effaith ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae ein gwaith yn y maes hwn yn cynnwys:

- Ymgysylltu'n rhagweithiol â Gweinidogion Llywodraeth Cymru, swyddogion ac Aelodau o'r Senedd i ddatblygu a chyflwyno deddfwriaeth a pholisïau sy'n ymwneud â thlodi plant
- Trefnu digwyddiadau tlodi plant yn genedlaethol ac yn rhanbarthol
- Cynnal arolwg blynyddol ar dlodi plant yng Nghymru

Gallwch ymuno â Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru am ddim a byddwch yn derbyn e-fwletinâu rheolaidd a mynediad at ddigwyddiadau di-dâl. I gael rhagor o wybodaeth, neu i ymuno, cysylltwch â Karen McFarlane yn [karen.mcfarlane@childreninwales.org.uk](mailto:karen.mcfarlane@childreninwales.org.uk)

